# Bwthyn Llainfadyn (9)



## Beth yw e?

- Bwthyn ydyw, a adeiladwyd yn Rhostryfan, Gwynedd ym 1762.
- Roedd bythynnod fel hwn yn gartrefi i weision fferm a chrefftwyr. Roedd y bwthyn hwn yn cael ei ddefnyddio gan weithwyr y diwydiant llechi lleol.

## Pwy oedd yn byw yma?

- Chwarelwr a'i deulu oedd yn byw yma. Gwyddom fod Ann a Hugh Williams yn byw yma gyda'u chwech o blant, lletywr a morwyn ym 1861.

## Ffeithiau difyr

- Meini mawr o'r mynydd a ddefnyddiwyd i adeiladu'r bwthyn to llechi hwn.
- Mae dodrefn y bwthyn o ansawdd da iawn gan fod chwarelwr yn ennill cyflog cymharol dda. Mae'r cwpwrdd bwyd derw mawr yn nodweddiadol o ardal y gogledd-orllewin. Daw hwn o Lainfadyn.
- Dim ond un ystafell sydd yn y bwthyn. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gofod prin, cafodd dau wely cwpwrdd eu gosod gefn wrth gefn i greu dwy ystafell wely ar wahân.
- Edrychwch i fyny i'r groglofft, lle mae gwely a chrud. Ystafell wely'r plant oedd hon.
- Mae'r dyddiad 1762 wedi'i gerfio ar drawst enfawr uwchben y tân. Dyma ddyddiad adeiladu'r tŷ.

## Am ragor o wybodaeth?

- Ewch i weld Cae Adda (rhif 9a), beudy tebyg i'r un a ddefnyddiwyd gan drigolion y bwthyn hwn.
- Ewch i Nant Wallter (rhif 8) bwthyn gweithiwr fferm a adeiladwyd ym 1770.